OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 873 (Cy.109)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*25 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Mehefin 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 52(2) a (3), 138(8) a 142(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Mehefin 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod addysg lleol;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

ystyr "cyfran ysgol o'r gyllideb" ("*school's budget share*") yw cyfran ysgol o'r gyllideb o fewn ystyr adran 47(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "datganiad alldro" ("*outturn statement* ") yw'r datganiad y cyfeirir ato yn adran 52(2) o Ddeddf 1998;

ystyr "datganiad cyllideb" ("*budget statement*") yw'r datganiad y mae'n ofynnol i'r awdurdod ei gyhoeddi yn unol ag adran 52(1) o Ddeddf 1998 a Rheoliadau 2002;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

(**1**) 1998 p. 31. Caiff adran 52 ei diwygio'n rhagolygol gan adran 45 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). I gael ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 142(1) o Ddeddf 1998.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 52 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002(**3**);

ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol neu ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â Rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn sydd â'r Rhif hwnnw ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â Rhif yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad sydd â'r Rhif hwnnw.

Dirymu a darpariaethau trosiannol

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae Rheoliadau Addysg (Datganiadau Alldro) (Cymru) 2000(**4**) yn cael eu dirymu.

(2) Er hynny, fe fydd y Rheoliadau hynny yn dal yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2000 a chyn 1 Ebrill 2002.

Ffurf datganiadau alldro

4.—(1) Rhaid paratoi datganiad alldro yn Gymraeg ac yn Saesneg.

(2) Rhaid i ddatganiad alldro gynnwys pennawd ar frig y tudalen cyntaf yn nodi mai datganiad alldro ydyw, enw'r awdurdod y paratowyd y datganiad ganddo a'r flwyddyn ariannol y mae'n cyfeirio ati.

Gwybodaeth ar gyfer datganiadau alldro

5.—(1) Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn datganiad alldro mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod (wedi'i hadnabod yn ôl ei henw a'r Rhif cyfeirio swyddogol a ddyrannwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol), yw —

(a) swm cyfran yr ysgol o'r gyllideb am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad yn cyfeirio ati ac a gynhwyswyd yn Rhan I o ddatganiad cyllideb yr awdurdod;

(b) manylion unrhyw godiadau neu ostyngiadau yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb o fewn y flwyddyn yn sgil unrhyw ailbenderfynu ar ei chyfran o'r gyllideb yn unol â rheoliad 19 o Reoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir 1999(**5**);

(c) manylion unrhyw symiau a ddyrannwyd i'r ysgol nad ydynt yn dod o fewn is-baragraff (a) neu (b);

(ch) y cyfanswm a ddyrannwyd i'r ysgol gan yr awdurdod yn y flwyddyn ariannol honno;

(d) y balans a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas ag unrhyw ormodedd neu ddiffyg yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb mewn unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol;

(dd) y swm sydd i'w gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf mewn perthynas ag unrhyw ormodedd neu ddiffyg yng nghyfran yr ysgol o'r gyllideb am y flwyddyn ariannol honno neu am unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol;

(e) cyfanswm y gwariant a briodolwyd i'r ysgol, a geir drwy adio'r gwahaniaeth rhwng y swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (d) a'r swm y cyfeirir ato yn is-baragraff (dd) i'r cyfanswm y trefnwyd ei fod ar gael i'r ysgol gan yr awdurdod;

(**3**) O.S. 2002/122 (Cy. 16).
(**4**) O.S. 2000/1717 (Cy. 117).
(**5**) O.S. 1999/101, a ddiwygiwyd gan O.S. 2000/911 (Cy. 40), 2001/495 (Cy. 22), 2002/136 (Cy.19) a 2003/538 (Cy.75).